
3



# Dod o hyd i fwy o wybodaeth am Greadur Arfordirol

Anifeiliaid a Phlanhigion

## Bwriad y Dysgu

- Dysgu am yr amrywiaeth o greaduriaid y gellir dod o hyd iddynt ar lan y môr.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Saesneg -** Ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion.

**Gwyddoniaeth -** Cyfathrebu'n glir drwy ddefnyddio'r eirfa wyddonol berthnasol.

- Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol.

**TGCh -** Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu.

**Daearyddiaeth -** Nodi cyffelybiaethau a gwahaniaethau er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau.

**ADCDF -** Yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Ymchwilio i greadur morol neu arfordirol.
- Trefnu gwybodaeth i lunio adroddiad.
- Creu rhestr ddosbarth o anifeiliaid sy'n byw ar lan y môr.
- Defnyddio llyfrau a gwefannau.
- Annog disgyblion i roi adroddiad llafar mewn grŵp ar un o'r creaduriaid.

## Adnoddau

Deunyddiau ymchwil, amrywiaeth o lyfrau o lyfrgell yr ysgol, y llyfrgell leol neu E.L.R.S.

Amrywiaeth o wefannau - gwnewch ymchwil ar 'Google' i ddod o hyd i wefan addas ymlaen llaw

Ffrâm ysgrifennu ar gyfer testun 'Y Creadur Dan Sylw' am y seren fôr ac adroddiadau gwag.

Ffrâm adroddiad llafar wag (o'r ffolder *adnoddau*)

*Llawlyfr glan môr i lyfryn Castell-nedd Port Talbot* (fformat pdf)

Taflen "Y Creadur dan Sylw" a templedi gwag

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

# Dod i wybod mwy am Anifail Morol

**Amlinelliad o'r Wers**

- Creu rhestr ddosbarth o anifeiliaid y mae'r dosbarth yn gwybod eu bod yn byw ar lan y môr.

Pa anifeiliaid rydym wedi'u gweld ar lan y môr?

- Darllen y daflen “creadur dan sylw”, yna esbonio y dylent geisio rhoi trefn i’r wybodaeth gan ddefnyddio’r templed.
- Gofyn i'r dosbarth, mewn parau neu grwpiau bach, i ddefnyddio'r wybodaeth enghreifftiol i greu proffil o'r greadur arall.
- Gan ddefnyddio llyfrau cyfeirio/peiriannau chwilio ar y rhyngrwyd (Google), byddant yn ymchwilio i’r creadur o’u dewis gan ddarganfod -

    y math o gynefin arfordirol y byddai'n byw ynddo
    y bwyd mae'n ei fwyta ac unrhyw ysglyfaethwyr naturiol
    unrhyw addasiadau sydd ganddo sy'n gweddu i’w amgylchedd
    y math o amodau y mae ei angen arno i oroesi.

- Yna, maent yn creu proffil creadur arfordirol, naill ai drwy ddefnyddio'r templed a ddarperir neu drwy ddylunio un personol.
- Unwaith mae'r disgyblion wedi cwblhau eu proffiliau creaduriaid, trafodwch yr hyn maent wedi'u darganfod - a oeddent wedi dod o hyd i unrhyw fygythiadau y mae'r anifeiliaid yn eu hwynebu?

Pa gynefinoedd sy'n gweddu orau i anghenion y creaduriaid hyn?

Oes modd adnabod yr holl greaduriaid hyn yn hawdd?

Beth yw'r cynefinoedd gwahanol y deuir o hyd iddynt ar lan y môr?

Y Creadur Dan Sylw

# Y Seren Fôr

Mae'r seren fôr gyffredin yn oren ac fe'i gwelir yn aml â breichiau ar goll.

Yn gyffredinol, mae gan sêr môr bum braich. Mae'r breichiau hyn yn wag ac maent wedi'u gorchuddio â phigau byr ac mae ganddynt resi o draed tiwbaidd oddi tanynt gyda sugnwyr ar y blaenau.

Yn y gorffennol, pan fyddent yn cael eu dal gan ddynion pysgota, byddent yn cael eu torri'n ddarnau a'u taflu dros fwrdd y cwch i geisio lleihau'r nifer.

Gellir dod o hyd i sêr môr mewn pyllau trai ac ar draethau. Yn aml, gellir dod o hyd iddynt ymysg gwelyau cregyn gleision a chregyn llong ar arfordiroedd Prydain.

Mae'r cynefin yn amrywio'n fawr ac mae'n cynnwys graean a chreigiau cregynnog a garw.

Mae gan sêr môr allu rhyfeddol i atgynhyrchu. Gall ail-dyfu breichiau sydd wedi cael ei torri i ffwrdd.

Mae sêr môr yn gigysyddion actif ac maent yn ysglyfaethu hefyd.

Mae sêr môr yn cael eu gyrru ymlaen ar hyd lawr y môr gan eu traed bach tiwbaidd.

Mae sêr môr cyffredin yn bwydo ar gregyn gleision, cramenogion, mwydod ac echinodermau eraill.

Mae ceg ganolog y seren fôr o dan ran uchaf y corff.

Mae'r seren fôr gyffredin wedi perffeithio'r sgil o agor cregyn deuglawr a rhoi ei stumog yn y gragen. Caiff corff y gragen ddeuglawr ei dreulio'n rhannol ac, yn ddiweddarach, caiff ei dynnu i mewn i'r seren fôr er mwyn ei dreulio'n llwyr.

Mae gan sêr môr y gallu i arogli'n dda iawn, sy'n galluogi iddynt leoli eu hysglyfaeth ac osgoi ysglyfaethwyr.

Gall traed tiwbaidd greu sugnedd cryf gan lynu'r seren fôr yn y fan a'i gwneud hi'n anodd i ysglyfaethwr ei bwyta.

Nid oes gan sêr môr safnau i gnoi eu bwyd a, chan ddibynnu ar y rhywogaeth, maent yn treulio bwyd mewn ffyrdd gwahanol. Mae gan sêr môr y gallu i wthio'u stumogau allan o'u cegau er mwyn treulio ysglyfaeth sy'n rhy fawr i'w lyncu.

Gall benyw unigol ryddhau hyd at 2.5 miliwn o wyau.

Rhoddir yr enw 'seren fôr' i ddetholiad o echinodermau o'r enw Asteroidea.

# Y Seren Fôr

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol

# Y ______________________

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol